**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol

**National Assembly for Wales**
External Affairs and Additional Legislation Committee

John Griffiths AC

Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol

a Chymunedau

01 Chwefror 2018

Annwyl John

**Brexit a Chydraddoldebau**

Yn ystod ein gwaith i asesu'r goblygiadau i Gymru o adael yr Undeb Ewropeaidd, rydym wedi derbyn nifer o sylwadau yn cyfeirio at y goblygiadau posibl o ran cyfle cyfartal.

Rydym yn cydnabod pwysigrwydd ystyried y goblygiadau o ran cydraddoldeb yng nghyd-destun ein harchwiliad ehangach o'r goblygiadau i Gymru yn sgil gadael yr Undeb Ewropeaidd.

I'r perwyl hwnnw, bwriadwn gynnal cyfarfod sy'n canolbwyntio ar Brexit a chydraddoldeb ar 26 Chwefror 2018.

Rydym yn ymwybodol o'ch gwaith pwysig ar Hawliau Dynol yng Nghymru a byddwn yn ymdrechu i osgoi unrhyw or-gyffwrdd â'r ymchwiliad hwn.

Fe ysgrifennaf eto yn dilyn y cyfarfod i roi trawsgrifiad o'r sesiwn i chi.

Cofiwch gysylltu os hoffech drafod hyn ymhellach.

Yn gywir

**David Rees AC**
Cadeirydd y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddMADY@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddMADY
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddEAAL@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddEAAL
0300 200 6565